# Y Cyfrifiad

## Darlun mawr o'r wlad i gyd

### Beth yw'r Cyfrifiad?

Ar ddydd Sul 29 Ebrill 2001, bydd pob unigolyn sydd fel arfer yn byw yn y wlad hon yn cymryd rhan yn y Cyfrifiad.

Ers 1801 a phob 10 mlynedd, mae'r wlad wedi neilltuo un diwrnod ar gyfer y Cyfrifiad – cyfrif o'r holl bobl a'r cartrefi yn y DG. Hon yw'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf cyflawn sydd gennym am y boblogaeth.

Gwneir pob ymdrech i gynnwys pawb. Dyna pam bod y Cyfrifiad mor bwysig. Hwn yw'r unig arolwg sy'n darparu darlun manwl o'r boblogaeth gyfan ac mae'n unigryw gan ei fod yn cwmpasu pawb ar yr un pryd ac yn gofyn yr un cwestiynau ym mhobman, gan ei gwneud yn hawdd i gymharu gwahanol rannau o'r wlad. Bydd yn cynnwys miliynau o gartrefi cyffredin ond bydd hefyd yn cynnwys y rhai hynny sy'n byw o dan un to mewn sefydliadau fel cartrefi gofal ac ysgolion preswyl. Bydd yn cynnwys dinasyddion Prydeinig sydd dramor ar leoliadau dros dro gyda'r Lluoedd Arfog a phobl sy'n byw ar y strydoedd. Fodd bynnag, ni chaiff pobl sy'n ymweld â Phrydain, megis twristiaid, eu cynnwys.

Bydd y wybodaeth a ddarperir gan y Cyfrifiad yn galluogi'r Llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, awdurdodau iechyd a llawer o sefydliadau eraill i dargedu eu hadnoddau yn fwy effeithiol a chynllunio gwasanaethau tai, addysg, iechyd a thrafnidiaeth am flynyddoedd i ddod. Mae'n arbennig o bwysig, felly, y caiff pob rhan o'r gymuned ei chynrychioli'n llawn.

### Pwy sy'n gyfrifol am gynnal y Cyfrifiad?

Yng Nghymru a Lloegr caiff y Cyfrifiad ei gynllunio a'i gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mewn lleoedd eraill, Swyddfa Cofrestrfa Genedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon sydd â'r cyfrifoldeb.

### Sut y cynhelir y Cyfrifiad?

Bydd angen gweithlu maes mawr ar y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr – tua 70,000 – er mwyn ei gynnal. Cyfrifwyr yw'r rhan fwyaf o'r rhain, sy'n dosbarthu'r ffurflenni yn yr wythnosau cyn Diwrnod y Cyfrifiad, ac yn cysylltu'n bersonol â deiliad y cartref. Bydd cyfrifwyr hefyd yn ailymweld ag unrhyw gartrefi nad ydynt wedi postio ffurflen y Cyfrifiad er mwyn ei chasglu.

YSTADEGAU GWLADOL

Paratowyd gan Adran y Cyfrifiad,
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Tel: 01329 813800
e-bost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk

## Pa gwestiynau a ofynnir?

Bydd ffurflen y Cyfrifiad yn cynnwys 40 o gwestiynau yn Lloegr a 41 yng Nghymru – gyda'r posibilrwydd o gwestiwn ychwanegol ar grefydd. Mae'r set gyntaf o gwestiynau yn ymwneud â llety a pherthynas o fewn y cartref, ac fe'u hatebir gan ddeiliad y cartref/cyd-ddeiliad y cartref ar ran y cartref cyfan. Cyfeirir y 30 cwestiwn sy'n weddill at bob unigolyn o fewn y cartref a dylai pob un ohonynt eu hateb yn eu tro. Bydd y cwestiynau a anelir at unigolion yn cwmpasu chwe maes eang: demograffeg (e.e. oed, rhyw); nodweddion diwylliannol (e.e. grŵp ethnig); cyflwr iechyd/salwch hir dymor; cymwysterau; cyflogaeth/gweithgaredd economaidd; gweithle a'r daith i'r gwaith.

Yng Nghymru bydd cwestiwn ar wybodaeth o'r Gymraeg a bydd fersiwn Gymraeg o ffurflen y Cyfrifiad ar gael i bob cartref ynghyd â fersiwn Saesneg.

## Beth fydd yn digwydd ar Ddiwrnod y Cyfrifiad?

Erbyn 'Diwrnod y Cyfrifiad' (29 Ebrill), bydd pob cartref yng Nghymru a Lloegr wedi derbyn ffurflen y Cyfrifiad. Dylai'r atebion y mae pobl yn eu hysgrifennu ar eu ffurflenni cyfrifiad adlewyrchu eu hamgylchiadau ar Ddiwrnod y Cyfrifiad a dylid postio'r ffurflenni yn ôl yn yr amlen ragdaledig a ddarperir, cyn gynted â phosibl ar ôl Diwrnod y Cyfrifiad.

## A fydd ffurflenni'r Cyfrifiad yn gyfrinachol?

Dim ond er mwyn cynhyrchu ystadegau am y boblogaeth yn gyffredinol y defnyddir y wybodaeth hon, ac ni ddatgelir unrhyw beth sy'n nodi unrhyw unigolyn neu gartref. Diogelir cyfrinachedd y wybodaeth a ddarperir gan y gyfraith. Caiff cofnodion microffilm 2001 y Cyfrifiad eu cadw'n ddiogel am 100 mlynedd cyn cael eu rhyddhau i'r cyhoedd gan y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus. Felly ni fydd y wybodaeth bersonol a geir yn ffurflenni 2001 ar gael tan 2102.

## Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i lenwi'r ffurflen?

Cynlluniwyd y ffurflen i fod mor glir â phosibl a chwestiynau ticio blychau yw'r rhan fwyaf ohonynt gyda rhai atebion i'w hysgrifennu. Dylai gymryd tua 30 munud i'w chwblhau yn achos cartref cyffredin.

## A yw cwblhau ffurflen Cyfrifiad yn orfodol?

Y nod yw cael cyfrif cyflawn o'r boblogaeth, ac mae'n rhaid i bob cartref ddychwelyd ffurflen yn ôl y gyfraith. Mae'n drosedd peidio â chwblhau a dychwelyd y ffurflen a gellir codi dirwy o hyd at £1,000.

## Pa help fydd ar gael?

Dylai'r cyfarwyddiadau a geir ar ffurflen y Cyfrifiad ei hun ateb y rhan fwyaf o ymholiadau sydd gan bobl wrth lenwi eu ffurflen. Fodd bynnag, bydd llinell gymorth (codir cyfraddau lleol ar alwadau) ar gael bob dydd yn ystod cyfnod y Cyfrifiad i ateb ymholiadau cyhoeddus. Bydd taflen yn esbonio sut i lenwi ffurflen y Cyfrifiad ar gael mewn 23 o ieithoedd lleiafrifol. Bydd ymgynghorwyr llinell gymorth dwyieithog ar gael ar gyfer nifer o ieithoedd ar wahân i Saesneg, a darperir gwasanaeth arbennig ar gyfer y gymuned fyddar.

## Sut y bydd pobl yn gwybod am y Cyfrifiad?

Bwriedir i ymgyrch hysbysebu cenedlaethol a chyhoeddusrwydd 'Cymru'n Cyfri' godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cyfrifiad. Ein nod yw, trwy dalu am hysbysebu a chyhoeddusrwydd am ddim yn y cyfryngau cenedlaethol a rhanbarthol, sicrhau y bydd y mwyafrif o bobl yn ymwybodol o'r Cyfrifiad cyn Diwrnod y Cyfrifiad.

## Beth fydd yn digwydd wedi Diwrnod y Cyfrifiad?

Caiff yr holl ffurflenni eu casglu a'u dosbarthu i ganolfan brosesu ganolog. I ddechrau caiff y ffurflenni eu sganio'n electronig, caiff y data ei gofnodi a'r atebion ysgrifenedig eu codio. Yna ysgrifennir y delweddau ar ficroffilm i'w cadw am gyfnod hir. Yng Nghymru a Lloegr caiff y ffurflenni papur eu dinistrio, gan arbed y gost o £3 miliwn o storio tua 30 milltir o gofnodion papur ar silffoedd. Disgwylir i'r cam hwn gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2002.

## Faint fydd cost Cyfrifiad 2001?

Tua £255 miliwn ar gyfer y DG gyfan ac mae £30-35 miliwn ohono ar gyfer yr Alban. Mae'r swm hwn yn cwmpasu'r cylch cyfrifiad 13 mlynedd cyfan o 1993 (pan ddechreuwyd cynllunio) i 2006, pan gyhoeddir yr holl wybodaeth, ac mae'n cyfateb i lai na £5 y person wedi'i rannu dros 13 mlynedd. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi gwybodaeth hanfodol i ni fel y gallwn sicrhau y caiff biliynau o bunnoedd o arian cyhoeddus ei ddosbarthu'n effeithiol dros y degawd nesaf.

## Sut y gwyddom fod y Cyfrifiad yn gywir?

Unwaith y cynhelir y Cyfrifiad, mae angen cynnal archwiliad o ba mor dda y mae'r Cyfrifiad wedi cyfrif pobl. Gelwir yr archwiliad hwn yn Arolwg Cwmpas y Cyfrifiad. Ym mis Mai-Mehefin 2001, bydd cyfwelwyr yn ailymweld â sampl o 300,000 o gartrefi ledled y wlad ac yn cynnal cyfweliad ar garreg y drws. Caiff yr atebion i rai cwestiynau eu cymharu â'r ffurflenni ar gyfer y prif Gyfrifiad i amlygu unrhyw wahaniaethau o ran cwmpas, a chânt eu defnyddio i amcangyfrif unrhyw dangyfrif.

## Pryd fydd y canlyniadau ar gael?

Dechreuir cyhoeddi prif ganlyniadau craidd y Cyfrifiad yn nhymor yr Haf 2003 a byddant ar gael yn bennaf ar y Rhyngrwyd. Bydd cyhoeddiadau papur hefyd ar gael yn dilyn ymgynghori â defnyddwyr.

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

**Taflenni ffeithiau eraill:**

2. Pam Bod Angen Cyfrifiad Arnom
3. Cyfrifiad 2001 – Beth sy'n Newydd?
4. Cyfrif Pawb – y Sialens Fawr
5. Trefniadaeth y Cyfrifiad
6. Swyddi'r Cyfrifiad
7. Y Cyfrifiad a'r Gyfraith
8. Y Cyfrifiad drwy'r Oesoedd

## Cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach:

**Ymholiadau'r wasg yn unig:**
Ffôn: 020 7533 5160

**Ymholiadau cyhoeddus yn unig:**
Census Customer Services
Room 4300S
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Ffôn: 01329 813800
Ffacs: 01329 813587

ebost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk